**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Cynigion y Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011–12

Tachwedd 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Cynigion y Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011–12

Tachwedd 2010

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

–ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
–ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
–ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

## Crynodeb o'r Casgliadau ac Argymhellion

| Paragraff | Casgliadau ac Argymhellion |
|---|---|
| 8 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ac yn croesawu'r newidiadau o ran y modd y cyflynwyd cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2011-12 sy'n dilyn rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad y llynedd. Mae'n gwerthfawrogi ymateb cadarnhaol y Comisiwn i'r argymhellion hyn ac mae'n teimlo bod y modd y cyflwynwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 yn llawer mwy eglur. |
| 15 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ac yn cydnabod y system gynhwysfawr ar gyfer asesu a rheoli gwaith y Comisiwn o fewn fframwaith llywodraethu corfforaethol cadarn. Mae'n amlwg bod gan Gomisiwn y Cynulliad system ar waith sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sy'n sicrhau bod cynnydd gweithgareddau a phrosiectau'n cael ei fonitro yn ogystal â'r rhagolwg alldro - ac, yn eu tro, addasir y blaenoriaethau i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r Pwyllgor yn nodi 5 amcan, neu nod, strategol y mae Comisiwn y Cynulliad wedi'u gosod. Er ei fod yn derbyn yn llwyr y dylai darparu'r rhain fod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn, maent yn ymwneud i raddau helaeth â'r modd y bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu yn hytrach nag â datganiadau am y cynnyrch terfynol y mae'n ceisio'i ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Ymhellach, mae nifer ohonynt yn gorgyffwrdd. |
| 16 | Nid yw'n glir i'r Pwyllgor Cyllid sut mae'r systemau â gyfeirir at uchod yn cysylltu â'r canlyniadau strategol y mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio'u cyflawni - nac ychwaith beth yw'r canlyniadau strategol hynny, sut y bydd y cynnydd yn eu herbyn yn cael ei fesur a sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu sut i ddyrannu adnoddau rhyngddynt. **<u>Mae'r Pwyllgor Cyllid am gael mwy o eglurder yn y maes pwysig hwn. Mae'n gofyn i Gomisiwn y Cynulliad roi manylion y fethodoleg y mae'n bwriadu ei defnyddio i fesur y perfformiad yn erbyn y canlyniadau y mae'n bwriadu eu cyflawni, a nodi sut y bydd y rhain yn cyfrannu at fodloni ei amcanion strategol. Dylai hyn gynnwys proses dryloyw o fapio adnoddau yn erbyn y</u>** |

| | |
|---|---|
| | **<u>blaenoriaethau strategol, gan ddangos y canlyniadau i'w cyflawni o'r gwariant hwn.</u>** |
| 20 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno ar bwysigrwydd ystyried yr hyn sy'n digwydd yn y byd ehangach. A phan fydd sefydliad neu fethodoleg sefydledig, mae'n aml yn bosibl gweld y pethau y gellir eu gwneud yn wahanol neu, gyda'r profiad sydd gan rywun, edrych ar y modd i wneud arbedion cost mewn ffordd wahanol. Ar yr un pryd, mae rôl y Cynulliad, a'i safle o ran llywodraethu Cymru, yn datblygu. Wrth ategu'r egwyddor o adlewyrchu'r newidiadau ym mloc Cymru, mae'n bwysig peidio â gadael i ystyriaethau o'r fath gyfyngu'r ddemocratiaeth sy'n tyfu yng Nghymru. Mae'n bwysig sicrhau, pa bynnag newidiadau a wneir, ac wrth ystyried unrhyw newidiadau ym mhwerau'r Cynulliad a allai ddod yn sgil y refferendwm, ei bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad gael yr adnoddau a'r ymagwedd i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen i gefnogi gwaith y Cynulliad o graffu'n effeithiol ar waith y Llywodraeth a gwaith arall. |
| 23 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r ymdrechion a wnaed gan y Cynulliad i ddefnyddio'r cynllun diswyddo gwirfoddol cynnar mewn ffordd sydd wedi sicrhau bod sgiliau sy'n hanfodol i'w waith yn cael eu cadw. Mae hefyd yn croesawu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i annog gweithio hyblyg ac i roi cyfleoedd i'r staff ddatblygu ac ehangu eu sgiliau. **Fodd bynnag, er y gall cael nifer o sgiliau gwahanol arwain at effeithlonrwydd drwy ddefnyddio staff mewn ffordd hyblyg, dylid monitro'r gostyngiad yn nifer cyffredinol y staff yn agos i sicrhau nad effeithir ar effeithiolrwydd y Cynulliad fel deddfwrfa mewn modd andwyol.** |
| 26 | Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r amrywiaeth eang o ffyrdd y gall y staff fynegi eu barn wrth y rheolwyr, ac mae'n cydnabod y ffaith bod y Comisiwn wedi ennill Statws Aur fel Buddsoddwr Mewn Pobl yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n nodi mai'r uwch swyddogion yn gyffredinol fydd yn gosod yr agenda ar gyfer y ffyrdd y gall staff fynegi eu pryderon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff gael eu henwi. Dylai'r gallu i herio'r rheolwyr uwch mewn modd effeithiol a chadarnhaol fod yn gonglfaen sefydliad iach, ond ymddengys nad oes dull y gall staff sy'n anghyffyrddus mewn cyfarfodydd ei |

| | |
|---|---|
| | ddefnyddio i roi eu barn, yn enwedig pan fydd ganddynt bryderon y maent yn poeni y gallant ddigio'r rheolwyr. |
| 27 | Ymhellach, er bod trafodaethau gyda grwpiau yn ffordd dda o ddeall manylion unrhyw faterion, nid ydynt yn darparu dull y gall y cyflogwr ei ddefnyddio i gael asesiad cyffredinol o farn staff o fewn y sefydliad a'r lefel gyffredinol o fodlonrwydd. **Nid does yn rhaid i arolwg o farn y staff fod yn gostus nac yn fiwrocrataidd, ac mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal arolwg yn rheolaidd. O gofio graddfa'r toriadau a'r newidiadau o'n blaenau, mae rhesymau da dros gynnal arolwg yn awr i gael darlun clir o'r sefyllfa sylfaenol.** |
| 30 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ac yn croesawu'r datblygiadau sy'n cael eu cynorthwo gan y gronfa ailstrwythuro a'r rhaglen newid a'r ddefnydd o adnoddau ar gyfer 'buddsoddi-i-arbed'. **Mae'n gofyn i Gomisiwn y Cynulliad roi nodyn iddo erbyn diwedd mis Ionawr sy'n nodi'n fanylach y prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd, ac asesiad meintioledig o'r gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a gaiff eu darparu o ganlyniad i hynny.** |
| 34 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod ymateb y Comisiwn yn cyfeirio at ddau ddull o gydweithio. Y cyntaf yw rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arfer da er mwyn datblygu ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau i'r Aelodau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'n fawr y dull hwn o weithio mewn partneriaeth ac yn ei gefnogi, er bod y buddiannau a ddaw ohono'n fwy tebygol o fod ar ffurf gwasanaethau gwell yn hytrach nag arbedion cost uniongyrchol. Mae'r Pwyllgor yn gresynu bod y costau sy'n rhesymol yn gyffredinol yn cael eu gweld a'u beirniadu'n rhy aml heb roi ystyriaeth i'r buddiannau ansoddol a gaiff eu cronni. |
| 35 | Mae'r math o gydweithio sy'n fwyaf tebygol o arwain at arbedion ariannol uniongyrchol yw rhannu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy fentrau ar y cyd a mathau eraill o bartneriaeth weithredol. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai arbedion rhesymol yn unig y mae Comisiwn y Cynulliad wedi'u gwneud hyd yn hyn drwy'r math hwn o gydweithio, ac mae'n ei annog i ystyried hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. |

| | |
|---|---|
| 39 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r anhawster o ran cyllidebu ar gyfer costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn y dyfodol, ac mae'n cytuno ei bod yn synhwyrol yn y cam hwn i gynnwys ffigur dangosol yn y gyllideb ac aros am ganlyniad trafodaethau'r Panel Adolygu Annibynnol. |

**GEN-LD8272 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Cynigion Cyllideb Ddrafft Ddiwygiedig Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12**

## Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 27 yn nodi:

*27.7 Heb fod yn hwyrach na 24 Medi ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi symiau'r adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.*

*27.8 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried cyllideb ddrafft y Comisiwn a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn hwyrach na thair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad…*

2. O ganlyniad i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, nad oedd trefniant i gyflwyno adroddiad arno tan 20 Hydref 2010, diwygiwyd Rheol Sefydlog 27.8 gan Reol Sefydlog 27A, a ddiwygiwyd yn ei thro ar 20 Hydref 2010, i newid y dyddiad olaf y gallai'r Pwyllgor Cyllid osod ei adroddiad i 29 Tachwedd 2010.

3. Gosododd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *GEN-LD8228 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12* ar 24 Medi 2010. Yn dilyn cyhoeddi casgliadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, gosododd Comisiwn y Cynulliad gyllideb ddrafft ddiwygiedig *GEN-LD8272 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12* ar 1 Tachwedd 2010. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi canolbwyntio ar y gyllideb ddrafft ddiwygiedig hon.

## Cyflwyniad

4. Trafododd y Pwyllgor Cyllid Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2011-12 yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2010.

5. Yn y cyfarfod, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan:

- Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas – Y Llywydd, Cadeirydd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Claire Clancy – Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
- Dianne Bevan – y Prif Swyddog Gweithredu

6. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid[1] at y Llywydd i ofyn rhagor o gwestiynau a gododd o'r dystiolaeth lafar a roddwyd yn y cyfarfod. Ymatebodd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[2] ar 16 Tachwedd 2010.

## Ymagwedd gyffredinol

7. Yn ei gyflwyniad ar y gyllideb, mae Comisiwn y Cynulliad yn cyfeirio[3] at sefydlu'r "Bwrdd Taliadau" i wneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad i hyn, mae cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn awr yn cynnwys dau gwmpas ar wahân. Mae'r naill ar gyfer y gwariant a fydd yn parhau i ddod o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn (Cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad); mae'r llall ar gyfer y gwariant a benderfynir gan y Bwrdd Taliadau (Cyllideb Aelodau'r Cynulliad). Ymdriniwyd â'r ddau gwmpas ar wahân yng nghynnig cyllideb ddrafft y Comisiwn.

**8. Sylw: Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ac yn croesawu'r ffaith bod rhai o'r newidiadau o ran y modd y cyflynwyd cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2011-12 yn dilyn rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad y llynedd. Mae'n gwerthfawrogi ymateb cadarnhaol y Comisiwn i'r argymhellion**

---

[1] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10 (p3), *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12 – Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Llywydd,* 2 Rhagfyr 2010

[2] Ibid

[3] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12*, para 15

**hyn ac mae'n teimlo bod y modd y cyflwynwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 yn llawer mwy eglur.**

## Cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad

9. Mae dogfen gyllideb Comisiwn y Cynulliad[4] yn datgan y bydd y gyllideb hon ar gyfer 2011-12, a'r cyllidebau yn y dyfodol, yn cael eu paratoi ar sail gostyngiadau blynyddol sydd, i'r graddau lleiaf, yn adlewyrchu effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar floc Cymru. Gan ddilyn rhagolygon diweddaraf y Trysorlys ar gyfer chwyddiant cyffredinol yr economi, bydd y Comisiwn yn gweithredu toriadau termau real:

| | % y toriad |
|---|---|
| 2011-12 | 5 |
| 2012-13 | 2 |
| 2013-14 | 3 |
| | |
| 2011-14 | 12 |

10. Yn gyffredinol, bydd y rhain yn gweithredu gostyngiad cronnus o 12 y cant erbyn mis Mawrth 2014 o'i gymharu ag 11 y cant ym mloc Cymru yn gyffredinol.

11. Aiff y ddogfen yn ei blaen i ddweud[5] y bydd cyflawni'r gostyngiad hwn yn her sylweddol ac y bydd angen ffocws clir ar flaenoriaethau, fel y gall y Comisiwn barhau i gyflenwi safonau uchel lle mae'n cyfrif fwyaf. Fodd bynnag, mae newidiadau yn ehangder, amseru ac ansawdd y gwasanaethau'n anorfod, a bydd yr Aelodau a defnyddwyr eraill y gwasanaethu'n sylwi ar y newidiadau hyn. Bydd rhywfaint o'r gwaith yn cael ei leihau neu'i gwtogi i alluogi darparu'r gwasanaethau o fewn sylfaen adnoddau mwy cyfyngedig.

[4] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12*, para 16
[5] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12*, para 18

Canlyniadau

12. Mae dogfen cyllideb ddrafft y Comisiwn[6] yn datgan bod y penderfyniadau a'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu yn cael eu llywio gan amcanion strategol y Comisiwn ar gyfer y Trydydd Cynulliad:

- Hyrwyddo'r ymgysylltiad â datganoli a'i ehangu;
- dangos undod, arweiniad ac ymateb hyderus i newid cyfansoddiadol;
- dangos parch, uniondeb a llywodraethu da yn yr holl waith a wnawn;
- gweithio'n gynaliadwy; a
- sicrhau bod gan y Cynulliad y gwasanaethau gorau, a ddarperir yn y ffordd fwyaf effeithiol.

13. Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor[7] eu bod wedi edrych ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac wedi blaenoriaethu o fewn y 5 nod strategol hyn. Gofynnodd y Pwyllgor[8] sut roedd y Comisiwn wedi penderfynu dyrannu'r blaenoriaethau cysylltiedig i'r 5 nod strategol hyn yn nhermau ariannol. Dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[9] eu bod wedi edrych ar yr hyn a oedd yn cael ei ddarparu a'r modd y mae'n cysylltu â'r 5 nod strategol. Pan ofynnwyd a oedd ganddynt fframwaith perfformiad, dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[10] fod ganddynt ddangosyddion perfformiad allweddol, risgiau allweddol, cerrig milltir allweddol a dashfwrdd ar gyfer pob un ohonynt. Mae lefel uchel o fonitro yn erbyn yr amcanion strategol, ac mae'r fframwaith risg cyfan wedi'i gysylltu â'r amcanion hynny.

14. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor,[11] nododd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad y prosesau'n fanylach a'r modd y

---

[6] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12*, para 3
[7] Cofnod y Trafodion p12, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[8] Cofnod y Trafodion p20, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[9] Cofnod y Trafodion p21, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[10] Cofnod y Trafodion p25, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[11] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10 (p3), *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12 – Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Llywydd,* 2 Rhagfyr 2010

cytunodd y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli, sy'n cael ei arwain gan y Prif Weithredwr, ar Gynllun Strategol sy'n gosod amcanion manylach ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nodai'r llythyr fod y Cynllun Strategol wedi'i strwythuro o gwmpas y 5 nod strategol. Aeth ymlaen i egluro[12] sut y dyrannwyd yr adnoddau yng ngoleuni'r cyflawniadau ac mewn ymateb i'r penderfyniadau i gynyddu adnoddau mewn mannau penodol. Dywedodd fod y Bwrdd Rheoli yn adolygu Adroddiad Rheoli Ariannol misol sy'n cynnwys asesiad risg o'r rhagolwg alldro. Drwy'r holl brosesau, gwneir penderfyniadau ar sail y risgiau a'r buddion mewn perthynas â ble y dylid ail-flaenoriaethu'r gwariant, sy'n cael ei wneud drwy sbarduno prosiectau, eu gohirio neu newid eu cwmpas.

**15. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cydnabod y system gynhwysfawr ar gyfer asesu a rheoli gwaith y Comisiwn o fewn fframwaith llywodraethu corfforaethol cadarn. Mae'n amlwg bod gan Gomisiwn y Cynulliad system ar waith sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sy'n sicrhau bod cynnydd gweithgareddau a phrosiectau'n cael ei fonitro yn ogystal â'r rhagolwg alldro - ac, yn eu tro, addasir y blaenoriaethau i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r Pwyllgor yn nodi 5 amcan, neu nod, strategol y mae Comisiwn y Cynulliad wedi'u gosod, ac er ei fod yn derbyn yn llwyr y dylai darparu'r rhain fod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn, maent yn ymwneud i raddau helaeth â'r modd y bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu yn hytrach nag â datganiadau am y cynnyrch terfynol y mae'n ceisio'i ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Ymhellach, mae nifer ohonynt yn gorgyffwrdd.**

**16. Felly, nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut mae'r systemau hyn yn cysylltu â'r canlyniadau strategol y mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio'u cyflawni - nac ychwaith beth yw'r canlyniadau strategol hynny, sut y bydd y cynnydd yn eu herbyn yn cael ei fesur a sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu sut i ddyrannu adnoddau rhyngddynt. Mae'r Pwyllgor Cyllid am gael mwy o eglurder yn y maes pwysig hwn. Mae'n gofyn i Gomisiwn y Cynulliad roi manylion y fethodoleg y mae'n bwriadu ei defnyddio i fesur y perfformiad yn erbyn y canlyniadau y mae'n bwriadu eu cyflawni, a nodi sut y bydd y rhain yn cyfrannu at fodloni ei amcanion strategol. Dylai hyn gynnwys proses dryloyw o fapio**

[12] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10 (p3), *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12 – Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Llywydd*, 2 Rhagfyr 2010

**adnoddau yn erbyn y blaenoriaethau strategol, gan ddangos y canlyniadau i'w cyflawni o'r gwariant hwn.**

Rheoli gyda llai o adnoddau

17. Gofynnodd y Pwyllgor[13] sut y byddai graddfa'r toriadau yn 2011-12 yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau o gofio'r angen i warchod busnes craidd deddfwriaeth, y trosglwyddiad i'r pedwerydd Cynulliad a'r newidiadau a allai ddilyn y refferendwm sydd i ddod ar bwerau yn y dyfodol. Wrth ymateb, dywedodd y Llywydd[14] nad oedd yn edrych ar y sefyllfa fel hynny. Nid oedd newidiadau yn y gwasanaethau'n cael eu gyrru gan y sylfaen ariannol, ond i'r gwrthwyneb. Am y tro cyntaf, ar ôl yr etholiad nesaf, bydd y Cynulliad yn gyfrifol am ei Reolau Sefydlog heb orfod cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad i'r broses honno, maent yn gobeithio cael ffordd symlach a chost-effeithiol o weithredu ac, felly, dyna fydd yn gyrru canlyniadau'r gyllideb ddrafft hon. Aeth yn ei flaen i ddweud[15] nad mater oedd o leihau gweithgaredd oherwydd yr adnoddau sydd ar gael, ond o beidio â gwario "mwy arnom ein hunain" na'r hyn sydd ar gael, yn gyfatebol, o'i gymharu â'n cyllideb, ar gyfer pobl Cymru. Gallai hyn[16] alluogi rhyw fath o broses o ailddyrannu adnoddau i adlewyrchu'r newidiadau ym mhwerau'r Cynulliad, ond mae angen mynd i'r afael â'r diffyg craffu mewn rhai mannau hefyd.

18. O ran gweithredu'r newidiadau hyn, dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[17] y bydd y gostyngiadau mwyaf yn digwydd ym maes staffio. Oherwydd nifer y bobl sydd wedi gadael, bydd arbediad net o £700,000. Bydd y newidiadau mwyaf ym meysydd technoleg gwybodaeth, llety a'r gyllideb ymgysylltu. Cyfeiriodd[18] at y fframweithiau llywodraethu a rheoli cadarn a oedd eisoes ar waith ac a fydd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu. Roedd ganddynt "ddashfwrdd" hefyd a'r dangosyddion canlyniadau y cyfeiriwyd atynt eisoes, fframwaith risg sydd wedi'i ddatblygu'n dda, a pholisïau trosglwyddo.

---

[13] Cofnod y Trafodion p37, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[14] Cofnod y Trafodion p38, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[15] Cofnod y Trafodion p46, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[16] Cofnod y Trafodion p42, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[17] Cofnod y Trafodion p39, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[18] Cofnod y Trafodion p47, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

19. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[19] at ddeialog y Comisiwn gyda'r Aelodau a'r atborth yr oeddent wedi edrych amdano i sicrhau bod y gwasanaethau'n ateb anghenion o ddydd i ddydd. Roedd angen hyn i sicrhau bod pawb yn gwneud eu swyddi'n effeithiol, sydd hyd yn oed yn bwysicach gyda llai o arian.

**20. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar bwysigrwydd ystyried yr hyn sy'n digwydd yn y byd ehangach. A phan fydd sefydliad neu fethodoleg sefydledig, mae'n aml yn bosibl gweld y pethau y gellir eu gwneud yn wahanol neu, gyda'r profiad sydd gan rywun, edrych ar y modd i wneud arbedion cost mewn ffordd wahanol. Ar yr un pryd, mae rôl y Cynulliad, a'i safle o ran llywodraethu Cymru, yn datblygu. Wrth ategu'r egwyddor o adlewyrchu'r newidiadau ym mloc Cymru, mae'n bwysig peidio â gadael i ystyriaethau o'r fath gyfyngu'r ddemocratiaeth sy'n tyfu yng Nghymru. <u>Mae'n bwysig sicrhau, pa bynnag newidiadau a wneir, ac wrth ystyried unrhyw newidiadau ym mhwerau'r Cynulliad a allai ddod yn sgil y refferendwm, ei bod yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad gael yr adnoddau a'r ymagwedd i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen i gefnogi gwaith y Cynulliad o graffu'n effeithiol ar waith y Llywodraeth a gwaith arall.</u>**

<u>Lleihau nifer y staff</u>

21. Yn eu llythyr i'r Pwyllgor[20], dywedodd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad bod 34 o geisiadau am ddiswyddo cynnar wedi dod i law a chymeradwywyd 25 o'r rhain. Roedd hyn yn cyfateb i tua 7 y cant o staff y Cynulliad a bydd pob un ohonynt wedi gadael erbyn 1 Rhagfyr. Yn y dystiolaeth lafar[21], dywedwyd wrth y Pwyllgor y rhoddwyd y blaenoriaethau o ran sgiliau, arbenigedd a'r angen am unigolion penodol ar frig y meini prawf wrth ddewis yr unigolion i gael eu rhyddhau. Er ei fod yn ymwneud yn rhannol â chost, roedd hefyd yn ymwneud â chadw'r sylfaen sgiliau y mae ei hangen ar y Cynulliad i wneud ei waith - yn enwedig yn y Cynulliad nesaf. Croesawodd y Pwyllgor yr ymagwedd hon a chefnogodd yr angen i gadw'r sylfaen gwybodaeth. Pan ofynnwyd i'r Llywydd a fyddai

---

[19] Cofnod y Trafodion p48, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[20] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10 (p3), *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12 – Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Llywydd,* 2 Rhagfyr 2010
[21] Cofnod y Trafodion p51, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

gan y Cynulliad ddigon o staff i allu gwneud ei waith[22], dywedodd y Llywydd[23] fod gan y Comisiynwyr ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflenwi adnoddau i'r Aelodau. Felly, pe na byddent wedi sicrhau bod nifer digonol o staff a bod staff â'r sgiliau i allu cyflenwi'r adnoddau hynny, byddent yn esgeuluso'u dyletswydd, yn statudol, ac ni fyddent eisiau bod yn y sefyllfa honno. Roedd yn hyderus pan ddywedasant wrth yr uwch dîm rheoli mai dyma'r adnoddau sydd gennym. Maent yn pwysleisio themâu penodol, ac mae cydweithio ar draws y sefydliad yn un thema rydym wedi'i phwysleisio erioed, er 2007. Yn benodol, roeddent am weld mwy o bobl yn gallu gwneud mwy nag un peth. Rhoddodd enghraifft[24], sef cyfuno swyddi diogelwch, gweithio yn y dderbynfa, bod yn aelod o staff croeso, a chyfathrebu negeseuon am y Cynulliad. Dywedodd ei fod yn credu bod y newid mewn diwylliant sy'n digwydd mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn yn cael ei groesawu gan ein hymwelwyr.

22. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad y pwyntiau hyn[25] gan ddweud bod y Comisiwn yn ffodus bod ganddo staff sydd wedi ymrwymo'n llwyr i'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, ac roedd nifer ohonynt yn gweld eu gwaith fel galwad. Roeddent yn deall y sefyllfa economaidd a'r toriadau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, ac roeddent yn rhoi eu hewyllys da yn ogystal â defnyddio'u harbenigedd a'u sgiliau. Yn ogystal â chael ffordd hyblyg iawn o weithio, roeddent hefyd yn gweithio gyda phobl mewn ffordd hyblyg ac yn ceisio galluogi pobl i gael y cyfleoedd i ehangu eu sgiliau.

**23. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion a wnaed gan y Cynulliad i ddefnyddio'r cynllun diswyddo gwirfoddol cynnar mewn ffordd sydd wedi sicrhau bod sgiliau sy'n hanfodol i'w waith yn cael eu cadw. Mae hefyd yn croesawu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i annog gweithio hyblyg ac i roi cyfleoedd i'r staff ddatblygu ac ehangu eu sgiliau. <u>Fodd bynnag, er y gall cael nifer o sgiliau gwahanol arwain at effeithlonrwydd drwy ddefnyddio staff mewn ffordd hyblyg, dylid monitro'r gostyngiad yn nifer cyffredinol y staff yn agos i sicrhau nad effeithir ar effeithiolrwydd y Cynulliad fel deddfwrfa mewn modd andwyol.</u>**

---

[22] Cofnod y Trafodion p53, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[23] Cofnod y Trafodion p54, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[24] Cofnod y Trafodion p55 & 70, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[25] Cofnod y Trafodion p56, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

Morâl y staff

24. Roedd y Pwyllgor yn pryderu, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ynghylch cynnal morâl y staff sydd mor hanfodol i waith y Cynulliad ac i ddefnyddio'i adnoddau'n effeithlon ac effeithiol. Er bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ffordd mae'r cynllun diswyddo gwirfoddol cynnar yn canolbwyntio ar warchod sylfaen sgiliau'r Cynulliad, roedd yn pryderu y gellid cael canlyniadau negyddol i'r cynllun o ran y staff a oedd yn dymuno gadael ond a oedd wedi eu gwrthod. Yn eu llythyr dilynol at y Pwyllgor,[26] dywedodd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad eu bod wedi hysbysu'r staff ymlaen llaw ynghylch y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i asesu'r ceisiadau ar gyfer y cynllun er mwyn rheoli a chymedroli'r disgwyliadau. Roedd gofyn hefyd i ymgeiswyr posibl gwrdd â'u Pennaeth Gwasanaeth i drafod a fyddent yn cefnogi cais ar sail gwarchod parhad y busnes a'r sgiliau. Yn y diwedd, cafwyd 34 o geisiadau ac felly naw yn unig a wrthodwyd.

25. Gofynnodd y Pwyllgor sut mae Comisiwn y Cynulliad yn rheoli morâl y staff yn fwy cyffredinol ac, yn benodol, a oes arolwg o farn y staff yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Yn yr un llythyr, dywedodd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad eu bod yn defnyddio amrywiaeth o ymagweddau i ddod i ddeall barn y staff, gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd a chyfarfodydd 'un-i-un' gyda staff, gan gynnwys fel rhan o'r trafodaethau ffurfiol ar berfformiad a datblygu. Ar y lefel gorfforaethol, cynhelir cyfarfodydd i'r holl staff, ceir 'Cyfnewid' (sy'n gofyn am atborth gan staff ar bynciau penodol), yn ogystal ag atborth gan yr undebau llafur drwy'r cytundeb partneriaeth sydd gennym â nhw. Dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ei bod hefyd wedi ysgrifennu at yr undebau llafur i awgrymu eu bod yn datblygu rhyw fath o broses arolygu staff ar y cyd mewn perthynas ag adolygiad cyfnodol ar bwnc penodol.

**26. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r amrywiaeth eang o ffyrdd y gall y staff fynegi eu barn wrth y rheolwyr, ac mae'n cydnabod y ffaith bod y Comisiwn wedi ennill Statws Aur fel Buddsoddwr Mewn Pobl yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n nodi mai'r uwch swyddogion yn gyffredinol fydd yn gosod yr agenda ar gyfer y ffyrdd y gall staff fynegi eu pryderon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff gael eu henwi. Dylai'r gallu i herio'r rheolwyr uwch**

[26] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10 (p3), *Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2011-12 – Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Llywydd,* 2 Rhagfyr 2010

**mewn modd effeithiol a chadarnhaol fod yn gonglfaen sefydliad iach, ond ymddengys nad oes dull y gall staff sy'n anghyffyrddus mewn cyfarfodydd ei ddefnyddio i roi eu barn, yn enwedig pan fydd ganddynt bryderon y maent yn poeni y gallant ddigio'r rheolwyr.**

27. **Ymhellach, er bod trafodaethau gyda grwpiau yn ffordd dda o ddeall manylion unrhyw faterion, nid ydynt yn darparu dull y gall y cyflogwr ei ddefnyddio i gael asesiad cyffredinol o farn staff o fewn y sefydliad a'r lefel gyffredinol o fodlonrwydd. Ni does yn rhaid i arolwg o farn y staff fod yn gostus nac yn fiwrocrataidd, ac mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal arolwg yn rheolaidd. O gofio graddfa'r toriadau a'r newidiadau o'n blaenau, mae rhesymau da dros gynnal arolwg yn awr i gael darlun clir o'r sefyllfa sylfaenol.**

Arian ailstrwythuro

28. Ymholodd y Pwyllgor ynghylch diben y gronfa ailstrwythuro o £593,000. Mae'n ymddangos, i raddau helaeth, mai ei diben yw ariannu diswyddo staff yn gynnar ac ailhyfforddi. Roedd yr Aelodau am wybod a oedd cynlluniau i ddefnyddio rhywfaint o'r arian hwn mewn ffyrdd eraill, fel arian sefydlu neu ar gyfer creu mwy o hyblygrwydd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd eraill – rhywbeth tebyg, o bosibl, i'r gronfa buddsoddi-i-arbed gan y Llywodraeth.

29. Yn ei hymateb, dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad[27] bod hynny'n bosibl, er nad oeddent wedi cyfrifo'r costau posibl ar gyfer hynny. Y prif reswm dros gael y gyllideb oedd ariannu cynllun diswyddo gwirfoddol arall ac i ddatblygu sgiliau'r staff i'w galluogi i symud pobl i wahanol feysydd. Dywedodd ei bod wedi gweithio i sefydliadau nad oeddent wedi cadw llygad ar yr hyn y byddai arnynt ei angen dair neu bedair blynedd yn ddiweddarach a'u bod felly wedi cael problemau. Roedd y gronfa ar gael i baratoi ar gyfer y dyfodol, ac er ei bod yn bosibl bod ffyrdd y gellid ei defnyddio i fuddsoddi i arbed arian nid oeddent wedi gwneud dim gwaith manwl ar hynny eto. Roedd arian hefyd[28] ar gyfer "rhaglen newid" i ariannu a datblygu prosiectau eraill sydd wedi'u diffinio i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

[27] Cofnod y Trafodion p74, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cylid
[28] Cofnod y Trafodion p80, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

30. **Sylw: Mae'r Pwyllgor yn nodi'r datblygiadau hyn ac yn eu croesawu. Mae'n gofyn i Gomisiwn y Cynulliad roi nodyn iddo erbyn diwedd mis Ionawr sy'n nodi'n fanylach y prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd, ac asesiad meintioledig o'r gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a gaiff eu darparu o ganlyniad i hynny.**

Cydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus

31. Gofynnodd y Pwyllgor i ba raddau roedd Comisiwn y Cynulliad yn ceisio darparu gwasanaethau ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy gydweithio â nhw. Ymholodd hefyd am yr arbedion a ddaw, neu a ddeuai, o ganlyniad i hyn.

32. Yn eu nodyn dilynol, dywedodd y Llywydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fod eu pwyslais o ran trefniadau o'r fath yn ehangach na rhannu costau yn unig gan fod y dull o gydweithio yn aml yn caniatáu iddynt wneud llawer mwy. Rhoddwyd enghreifftiau, fel y cyfleoedd hyfforddi a mentora a ddatblygwyd gyda chydweithwyr yn y GIG, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Roedd cysylltiadau hefyd drwy secondiadau ar gyfer myfyrwyr, rhannu arfer da gyda gweithwyr proffesiynol ym maes llyfrgelloedd a'r gyfraith, a nifer o gyfleoedd rhwydweithio i archwilio atebion amgen ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r nodyn hefyd yn cyfeirio at y staff a ddaeth ar secondiad o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

33. O ran rhannu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu gyda chyrff cyhoeddus eraill, mae'r nodyn yn cyfeirio at yr arbedion o tua £3,000 y flwyddyn o gael canolfan ddata a rennir gyda Thŷ'r Cwmnïau a'r broses o gaffael trydan drwy'r Cytundebau Fframwaith Atebion Prynu.

**34. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn nodi bod ymateb y Comisiwn yn cyfeirio at ddau ddull o gydweithio. Y cyntaf yw rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arfer da er mwyn datblygu ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau i'r Aelodau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'n fawr y dull hwn o weithio mewn partneriaeth ac yn ei gefnogi, er bod y buddiannau a ddaw ohono'n fwy tebygol o fod ar ffurf gwasanaethau gwell yn hytrach nag**

**arbedion cost uniongyrchol. Mae'r Pwyllgor yn gresynu bod y costau sy'n rhesymol yn gyffredinol yn cael eu gweld a'u beirniadu'n rhy aml heb roi ystyriaeth i'r buddiannau ansoddol a gaiff eu cronni.**

**35. Fodd bynnag, y math o gydweithio sy'n fwyaf tebygol o arwain at arbedion ariannol uniongyrchol yw rhannu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy fentrau ar y cyd a mathau eraill o bartneriaeth weithredol. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai arbedion rhesymol yn unig y mae Comisiwn y Cynulliad wedi'u gwneud hyd yn hyn drwy'r math hwn o gydweithio, ac mae'n ei annog i ystyried hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

## Cyllideb Aelodau'r Cynulliad

36. Mae dogfen gyllideb Comisiwn y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb ddrafft ar gyfer y cwmpas hwn ac yn nodi,[29] oherwydd bod y gyllideb ddrafft hon yn cael ei gosod cyn i'r Bwrdd Taliadau gyflwyno'i benderfyniadau, nad yw Comisiwn y Cynulliad yn gwybod ar ba lefelau y bydd cyflog a lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gosod ar gyfer 2011-12. Y Bwrdd Taliadau fydd yn penderfynu'r lefelau hyn. Mae Comisiwn y Cynulliad yn dweud bod cyllideb ddrafft yr Aelodau ar gyfer 2011-12 yn adlewyrchu gostyngiad o 4 y cant mewn termau real o'i gymharu â'r un gyllideb yn 2010-11, ond mae hefyd yn cynnwys swm ar wahân a amcangyfrifir ar gyfer costau'r etholiad a gaiff ei gynnwys yn y Penderfyniad draft. Mae gostyngiadau tebyg ar gyfer cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad wedi'u cynnwys ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

37. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid sut y byddai'r Comisiwn yn ymdrin â'r ffigurau gwirioneddol a ddaw yn sgil ystyriaethau'r Bwrdd Taliadau. Dywedodd Claire Clancy wrth y Pwyllgor[30] eu bod wedi gwneud rhai cyfrifiadau i weld beth sy'n fforddiadwy mewn perthynas â'r arian sydd ar gael, ac felly roedd ganddynt rywfaint o sicrwydd yn hynny o beth. Fodd bynnag, pe bai argymhellion y Bwrdd yn costio mwy, byddai'n rhaid iddynt gael cyllideb atodol, a phe bai'r argymhellion yn golygu nad oes ei hangen, byddai'n cael ei rhoi yn ôl.

---

[29] *Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad (yn dilyn yr Adolygiad o Wariant 2010) 2011-12*, para 30
[30] Cofnod y Trafodion p162, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

38. O ran costau'r etholiad,[31] dywedodd Claire Clancy eu bod wedi defnyddio'r costau cyfartalog ar gyfer yr Aelodau roeddent yn gwybod na fyddent yn dychwelyd, a'u bod wedi cynyddu'r arian crynswth ar gyfer hyn ar sail y posibilrwydd y byddai 30 o Aelodau newydd.

**39. Sylw: Mae'r Pwyllgor yn nodi'r anhawster o ran cyllidebu ar gyfer costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn y dyfodol, ac <u>mae'n cytuno ei bod yn synhwyrol yn y cam hwn i gynnwys ffigur dangosol yn y gyllideb ac aros am ganlyniad trafodaethau'r Panel Adolygu Annibynnol.</u>**

## <u>Casgliadau</u>

40. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r newidiadau a wnaed gan Gomisiwn y Cynulliad yn y ffordd y mae wedi cyflwyno'i gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rheini ac yn teimlo'u bod yn gwella'i eglurder yn sylweddol.

41. Fel y rhan fwyaf o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae Comisiwn y Cynulliad yn wynebu heriau yn y blynyddoedd nesaf wrth geisio ymdopi â'r gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r systemau cynhwysfawr sydd gan y Comisiwn ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a chyllidebau ac y mae'n eu cydnabod. Fodd bynnag, nid yw'n eglur ym mha ffordd mae'r systemau hyn yn cysylltu â'r canlyniadau strategol y mae Comisiwn y Cynulliad yn ceisio'u sicrhau. Nid yw'n eglur ychwaith, mewn gwirionedd, beth yw'r canlyniadau strategol hynny. Er bod Comisiwn y Cynulliad wedi nodi 5 nod i'w gynorthwyo i osod blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau, mae'r rhain yn cysylltu'n fwy â'r modd y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn hytrach na'u canlyniadau, a hoffai'r Pwyllgor gael mwy o eglurder ar hyn.

42. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymagwedd y Comisiwn tuag at y cynllun 'diswyddo cynnar' diweddar, a oedd yn canolbwyntio ar gadw a diogelu sylfaen sgiliau Comisiwn y Cynulliad a'i ymdrechion i sicrhau cynnal morâl y staff yn ystod cyfnod o newid anodd o bosibl. Mae'n cydnabod Statws Aur y Comisiwn fel Buddsoddwr Mewn Pobl. Fodd bynnag, mae'n teimlo bod bylchau posibl yn y dull a ddefnyddir

---

[31] Cofnod y Trafodion p164, 8 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

ganddo i gasglu barn staff, ac mae'n awgrymu y dylid cyflwyno arolwg o farn y staff yn fuan.

43. Mae'r Pwyllgor yn croesawu buddsoddiad Comisiwn y Cynulliad mewn rhoi dulliau newydd o weithio ar waith ac yn y rhaglen newid, ac mae wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y prosiectau amrywiol sydd ar waith i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau ac am asesiad meintioledig o'r gwelliannau a ddaw o ganlyniad i hynny.

44. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffordd mae'r Comisiwn yn cydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, ac mae'n ei annog i fynd ati i chwilio am fwy o'r math o gydweithio a fydd yn arwain at arbedion cost uniongyrchol.

45. Mewn perthynas â chyflog yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn anodd ar hyn o bryd i wneud dim ond cynnwys ffigur dangosol yn y gyllideb, ac aros am ganlyniad trafodaethau'r Panel Adolygu Annibynnol.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**